# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)05-11

**Dyddiad:**Dydd Mawrth 8 Chwefror 2011
**Amser:**08.30
**Lleoliad:**Ystafell Gyfarfod, 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Nick Ramsay, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y CynulliadMarion S
tapleton, Is-adran Busnes y Cynulliad a Deddfwriaeth
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC(3)04-11 (Cofnodion preifat) – Dydd Mawrth 1 Chwefror 2011**

**Bc(£)04-11 (Cofnodion cyhoeddus) – Dydd Mawrth 1 Chwefror 2011**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)05-11(p1)**

3.1 Cyhoeddodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb fod yr eitemau a ganlyn i'w cynnal ddydd Mawrth wedi cael eu tynnu'n ôl:

Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 (15 munud)

Dadl ar rôl y Consortia Rhanbarthol (60 munud)

3.2 Cytunodd y Pwyllgor na fyddai'r Cyfnod Pleidleisio yn digwydd cyn 17.00 ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 8 a 9 Chwefror 2011.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y 3 wythnos nesaf - BC(3)05-11(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y 3 wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf - BC(3)05-11(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

### 4. Pwyllgorau

**(i) Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau – BC(3)05-11(p4)**

4.1 Trafododd y Pwyllgor Busnes lythyr gan y Pwyllgor Deisebau ynghylch deiseb sy'n galw am sefydlu pwyllgor i archwilio'r broses o gyflwyno'r fenter a'r broses refferendwm yng Nghymru ar gyfer materion datganoledig. Cytunodd y Pwyllgor Busnes nad oedd yn briodol sefydlu pwyllgor o'r fath.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**